# Cynllun Strategol Llenyddiaeth Cymru 2022-2025

Ein Gweledigaeth yw Cymru sy'n grymuso, yn gwella, ac yn cyfoethogi bywydau trwy lenyddiaeth.


# Amdanom Ni

## Llenyddiaeth Cymru yw'r cwmni cenedlaethol gyda chyfrifoldeb dros ddatblygu llenyddiaeth.

## Ein gweledigaeth yw Cymru sydd yn grymuso, yn gwella ac yn cyfoethogi bywydau drwy lenyddiaeth.

Rydym yn hwyluso, noddi ac yn cyflawni rhaglen llenyddol ledled Cymru, ac yn gweithio yn y Gymraeg, y Saesneg, ac yn ddwyieithog.

Mae ein gwaith yn cynnwys ysbrydoli cymunedau trwy gyfranogi mewn llenyddiaeth, datblygu sgiliau a thalentau awduron, a dathlu diwylliant llenyddol Cymru.



# Cyflwyniad

Mae llenyddiaeth yn ein cysylltu ni â'n gilydd ar adeg o raniadau cynyddol ac ansicrwydd byd-eang. Mae'r straeon y byddwn ni'n eu darllen, yn eu clywed, ac yn eu dweud wrth ein gilydd yn ein helpu i ddehongli cymhlethdodau ein bywydau ac i wneud pen a chynffon o'n byd.

Nawr, yn fwy nag erioed, mae angen grym llenyddiaeth arnon ni yn ein bywydau.

Mae'r cynllun hwn yn cyflwyno ein huchelgais o greu Cymru lle mae llenyddiaeth yn cynrychioli ein lleisiau amrywiol, yn gefn i'n llesiant, ac yn codi ymwybyddiaeth o'r argyfwng hinsawdd.

Bydd y gwaith hwn yn ein helpu i wireddu ein gweledigaeth o Gymru lle mae llenyddiaeth yn grymuso, yn gwella, ac yn cyfoethogi bywydau.



# Grym Llenyddiaeth

Gall llenyddiaeth, yn ei holl ffurfiau, fod â'r grym i gysylltu cymunedau a rhoi cysur, ysbrydoliaeth a gobaith i'r rhai sydd wir angen hynny.

Mae nifer o fanteision yn deillio o gymryd rhan mewn gweithgareddau llenyddol. Mae'r rhain yn amrywio o fuddiannau bychain ond arwyddocaol i'r unigolyn, i newidiadau mawr i'n henw da yn rhyngwladol.

Yn ein gwaith rydym wedi gweld unigolion o bob oed yn cynyddu eu sgiliau a'u hyder, herio eu barn, prosesu pryderon, a mynegi eu gobeithion. Rydyn ni wedi gweld y rhai sydd wedi eu hanghofio yn y gorffennol yn cael eu hysbrydoli i ysgrifennu eu dyfodol eu hunain.

Rydym wedi gweld llenyddiaeth yn rhoi Cymru ar lwyfan y byd, lle mae wedi cyflwyno ein diwylliannau a'n hieithoedd i gynulleidfaoedd helaeth.



# Ein Stori Hyd Yma

Ers ei sefydlu, mae Llenyddiaeth Cymru wedi gweithio'n galed i gynrychioli anghenion Cymru.

Mae'r ffigurau ar y dudalen hon yn rhoi cipolwg ar ein llwyddiannau dros y tair blynedd diwethaf a sut rydym wedi helpu i ysbrydoli cenedlaethau'r dyfodol, datblygu lleisiau llenyddol mwy amrywiol, a chreu cyfalaf diwylliannol ac economaidd i bob un ohonom.

I ddarganfod mwy, ewch i wefan Llenyddiaeth Cymru: www.llenyddiaethcymru.org

Llenyddiaeth Cymru mewn rhifau: o Ebrill 2019 i Mawrth 2022...

**531,096**

Y nifer o bobl sydd wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau a gynhaliwyd gan Llenyddiaeth Cymru, gan gynnwys 17,107 o blant a phobl ifanc.

**752**

Y nifer o gyfleodd creadigol a phroffesiynol sydd wedi eu rhoi i egin awduron.

**98%**

Nifer y rhanddeiliaid a holwyd yn 2021 a nododd fod ein gwaith ar gynrychiolaeth yn gwneud gwahaniaeth i lenyddiaeth yng Nghymru.

# Ein Nodau

Drwy lenyddiaeth, rydyn ni'n helpu i lywio a gwella ein cymdeithas, ein heconomi, a'n diwylliant.

Ar sail ein dealltwriaeth ni o rym llenyddiaeth i weddnewid a gwella bywydau, rydyn ni wedi dewis nodau sy'n adlewyrchu ein huchelgais a'n dyheadau i Gymru. Mae'r rhain yn cyd-fynd â Saith Nod Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, i sicrhau bod popeth a wnawn yn helpu i gyflawni un neu ragor o'r nodau hyn.

Mae ein nodau wedi'u rhannu'n dri chategori: ein **Blaenoriaethau**, ein **Mathau o Weithgarwch**, ac ein **Sylfaen**.

# Ein Blaenoriaethau

Rydym wedi dewis tair blaenoriaeth i ganolbwyntio arnynt ac i fuddsoddi ynddynt, sy'n ceisio ysgogi newid mewn cymdeithas drwy lenyddiaeth.

- Cynrychiolaeth a Chydraddoldeb
- Iechyd a Llesiant
- Yr Argyfwng Hinsawdd

# Cynrychiolaeth a Chydraddoldeb



'Dere gyda fi',
gan Connor Allen a Nia Morais.
**Cliciwch yma i wylio.**

Datblygu sector sy'n cefnogi mynediad teg i bawb drwy fynd i'r afael ag anghydraddoldebau hanesyddol a strwythurol a rhoi llwyfan i lleisiau amrywiol.

Cymru sy'n Fwy Cyfartal

# Iechyd a Llesiant



'Yng nghorff y testun', gan
Sian Northey a Grace Quantock.
**Cliciwch yma i wylio.**

Cefnogi llesiant unigolion a chymunedau gan ddefnyddio potensial iachaol
llenyddiaeth i gryfhau gwasanaethau.

Cymru Iachach

# Yr Argyfwng Hinsawdd



'Cerdd drothwy',
gan Hywel Griffiths.
Cliciwch yma i wylio.

Defnyddio creadigrwydd i addysgu, archwilio a herio, gan wella gwybodaeth pobl am yr argyfwng hinsawdd ac ysgogi newid sy'n para.

Cymru Gydnerth

# Ein Mathau o Weithgarwch

Byddwn yn cyflawni ein tair blaenoriaeth trwy ein mathau o weithgarwch, a dyma sut y byddwn ni'n creu cymdeithas lenyddol fyrlymus:

- Cyfranogi
- Datblygu Awduron
- Diwylliant Llenyddol Cymru

# Cyfranogi

Galluogi mwy o bobl yng Nghymru i fwynhau mynd ati i gyfranogi mewn llenyddiaeth, gan ysbrydoli cymunedau a'i gwneud hi'n haws i bobl ymwneud â'n gwaith.

Cymru o Gymunedau Cydlynus



# Datblygu Awduron

Datblygu a chefnogi gweithlu medrus sy'n cynnig gweledigaeth yn y sector llenyddol,
drwy ddarparu cyfleoedd, cynyddu potensial, a hyrwyddo arferion cyflogaeth teg.

Cymru Lewyrchus



# Diwylliant Llenyddol Cymru

Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-Eang

Dathlu amrywiaeth ein hawduron cyfoes a threftadaeth lenyddol Cymru yn y byd, drwy greu llwyfan i lenyddiaeth sy'n berthnasol ac yn agored i bawb.




# Ein Sylfaen:
# Y Gymraeg

## Hyrwyddo'r Gymraeg a dathlu ein diwylliant Cymreig unigryw, amrywiol, drwy feithrin sîn lenyddol fyrlymus a chyfleoedd i archwilio drwy lenyddiaeth.

Mae'r Gymraeg yn perthyn i bob un ohonom, pryd bynnag a sut bynnag y down i'w hadnabod. Rhan gwbl ganolog o'n cenhadaeth ni yw creu Cymru lle mae'r Gymraeg yn ffynnu a'n llenyddiaeth yn cynrychioli ein lleisiau amrywiol.

Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu





Gyda phwy rydyn ni'n gweithio?
Darllenwyr, cynulleidfaoedd a chyfranogwyr creadigol
Cymunedau a Grwpiau'r Filltir Sgwâr
Plant a Phobl Ifanc
Cymunedau sy'n cael eu tangynrychioli
Awduron
Partneriaid

# Ein Gwerthoedd

## Rydyn ni'n rhoi gwerth ar waith sy'n:

- Cefnogi grwpiau a chymunedau sy'n cael eu tangynrychioli
- Golygu cydweithio a chydweithredu
- Arloesol ac yn uchelgeisiol
- Parchu'r Gymraeg
- Hyrwyddo cynhwysiant a hygyrchedd
- Gadael gwaddol
- Eirioli dros rym llenyddiaeth



# Egwyddorion Cyflawni

## Rydyn ni'n bwriadu gwneud gwaith sy'n:

- Cael ei arwain gan effaith, ac sy'n cyd-fynd â'n Nodau Effaith
- Rhoi pwyslais ar fod yn wrth-hiliol
- Cyrraedd ein safonau ar gyfer darparu'n gynhwysol
- Cyd-fynd â Chontract Diwylliannol Llywodraeth Cymru, ac sy'n talu artistiaid a gweithwyr llawrydd yn deg
- Osgoi gorgyffwrdd â darpariaeth bresennol neu ddarpariaeth sydd ar y gweill gan bobl neu sefydliadau eraill
- Golygu gweithio mewn partneriaeth ar draws nifer o sectorau i ehangu cyrhaeddiad llenyddiaeth
- Cefnogi nod Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru



Diolch am eich diddordeb yn ein Cynllun Strategol 2022-2025.
Ewch draw i'n gwefan i ddarganfod mwy, neu mae croeso i chi gysylltu â ni yn uniongyrchol:

www.llenyddiaethcymru.org
01766 522811 / 029 2047 2266
post@llenyddiaethcymru.org
@LlenCymru

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government